



Datganiad Ystadegol

Treth Trafodiadau Tir



Amcangyfrifon ar gyfer Chwarter 4, Ionawr i Fawrth 2019, ac amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2018-19

Ystadegau allweddol o'r datganiad hwn

Ar gyfer trafodiadau hysbysadwy wedi'u hadrodd y Dreth Trafodiadau Tir gyda dyddiad dod i rym yn:

Ionawr i Fawrth (ffigurau dros dro)


- 13,190 o drafodiadau a £52.6 miliwn o dreth yn ddyledus;
- 11,740 o drafodiadau preswyl gyda £33.0 miliwn o dreth yn ddyledus;
 - o'r rhain, 3,060 o drafodiadau preswyl ar y brif gyfradd; a
- 1,450 o drafodiadau amhreswyl, gan arwain at £19.6 miliwn o dreth yn ddyledus.

2018-19 (ffigurau dros dro)

- 61,560 o drafodiadau a £227.6 miliwn o dreth yn ddyledus;
- 55,560 o drafodiadau preswyl gyda £155.5 miliwn o dreth yn ddyledus;
 - o'r rhain, 12,990 o drafodiadau preswyl ar y brif gyfradd; a
- 6,000 o drafodiadau amhreswyl, gan arwain at £72.1 miliwn o dreth yn ddyledus.

Siart 1: Treth yn ddyledus ar y trafodiadau hysbysadwy'r Dreth Trafodiadau Tir, yn ôl chwarter dod i rym

Treth yn ddyledus (£ miliwn)



Mae'r bariau wedi eu lliwio yn dangos y dreth ychwanegol sy'n ddyledus ar y gyfradd uwch (gyda'r cyfanswm preswyl).

25 Ebrill 2019

ACC 03/2019

Y datganiad hwn yw'r pedwerydd dydd o gyfres chwarterol 2018-19 o ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys amcangyfrifon amodol ar gyfer mis Mawrth 2019, ac amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer misau blaenorol. Maen nhw'n rhoi cipolwg cryno ar y trafodiadau hysbysadwy a ddaeth i law erbyn diwedd 15 Ebrill 2019.

Mae datganiad blynyddol ar gyfer ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir i fod i gael ei gyhoeddi ar 27 Mehefin 2019.

Cysylltwch â ni

Dave Jones

Ystadegydd

03000 254 729

data@acc.llyw.cymru

Treth Trafodiadau Tir

Ar 1 Ebrill 2018, cafodd Treth Dir y Dreth Stamp ei disodli gan y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer eiddo preswyl ac amhreswyl a buddiannau tir sy'n cael eu prynu yng Nghymru. Mae'r cyfraddau treth a bandiau treth ar gyfer Treth Trafodiadau Tir yn amrywio yn ôl y math o drafodion. [Gellir gweld y rhestr lawn o gyfraddau treth a bandiau treth ar wefan Llywodraeth Cymru.](#)

Pam mae'r gwerthoedd hyn yn rhai amodol a pha werthoedd sydd wedi cael eu diwygio?

Mae'r data sydd yn y datganiad hwn yn amodol, gan fod yr amcangyfrifon gwreiddiol yn debygol o gael eu diwygio yn y dyfodol, ar ôl i ragor o ddata gael ei gasglu. Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn esbonio amseriad ystadegau'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir.

Mae'r gwerth a gyflwynwyd ar gyfer y chwarter hwn yn un dros dro, gan gynnwys data o fisoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2019. Mae'r data cychwynnol ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror wedi ei gyhoeddi'n flaenorol ar [wefan StatsCymru](#); adolygwyd y rhain yn y datganiad hwn yn dilyn derbyn ffurflenni ychwanegol a dilysu data.

Ar gyfer data'r mis diweddaraf (Mawrth 2019 yn y datganiad hwn):

- Wrth lenwi ffurflen dreth y Dreth Trafodiadau Tir, mae'r sefydliad sy'n talu'r swm yn cael 30 diwrnod ar ôl y 'dyddiad dod i rym' i gyflwyno a thalu'r swm. Y dyddiad dod i rym yw'r adeg pan mae'n rhaid talu'r dreth, fel arfer pan mae trafodiad yn cael ei gwblhau ar eiddo. Felly, mae trafodiadau ychwanegol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir sy'n berthnasol i fis Rhagfyr yn debygol o gael eu cyflwyno yn ystod gweddill mis Ionawr.
- Mae bron tri ran o bedwar o'r trafodiadau hysbysadwy a adroddir yn cael eu hadrodd i ACC o fewn deg diwrnod, ond mae un ym mhob deg yn cael eu hadrodd ar ôl 20 diwrnod.
- Gallai gwaith ychwanegol i lanhau a dilysu data ganfod gwallau mewn ffurflenni treth a gyflwynwyd. Cyfyngedig fu'r gwaith dilysu ar y data hyd yma, a byddwn ni'n parhau i wella'r amcangyfrifon wrth i ni ddysgu mwy am y data.

Yn y datganiad hwn, rydym hefyd yn diwygio'r amcangyfrifon misol gwreiddiol a gyhoeddwyd ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror 2019. Gallai'r amcangyfrifon hyn gael eu diwygio ymhellach yn y dyfodol, er enghraifft:

- yn dilyn ad-daliadau am drafodiadau eiddo preswyl cyfradd uwch (gweler Tabl 6);
- oherwydd camgymeriadau a ganfyddir mewn ffurflenni o ganlyniad i wiriadau ACC; neu
- gan asiantiaid yn y broses o redeg eu busnes.

Mae'r data ar gyfer Ebrill i Rhagfyr 2018 wedi cael ei ddiweddarau yn y datganiad hwn hefyd, ond o ystyried faint o amser sydd wedi bod ers diwedd Medi, mae'n annhebygol y bydd newidiadau amlwg yn cael eu gwneud i'r data yn y dyfodol.

Amseru Ystadegau Swydddogol ar gyfer Treth Trafodiadau Tir


Mae'r diagram isod yn amlinellu'r amserlen ar gyfer adrodd ar drafodiadau sy'n destun Treth Trafodiadau Tir (TTT) i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC); a'r effaith a gaiff hyn ar amseriad ystadegau swydddogol.

Mae'r tri bar isod yn cynrychioli enghreifftiau o drafodiadau, pob un gyda dyddiadau gwahanol ar gyfer dod i rym. Mae'r bar cyntaf yn dangos lle mae dyddiad dod i rym y trafodiad (y dyddiad cwblhau, fel arfer) yn ddiwrnod 1 o fis 1, yn yr ail far y diwrnod dod i rym yw diwrnod 15 o fis 1, ac yn y trydydd bar, diwrnod 28 o fis 1.

Mae'r diagram yn tynnu sylw efallai na fydd trafodiadau sy'n digwydd yn ddiweddarach yn y mis yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon cyntaf ar gyfer mis 1, oherwydd y cyfnod o 30 diwrnod ar gyfer hysbysu ACC a'r dyddiad terfyn er mwyn galluogi ystadegau amserol.



Chwarter 1



Amseroedd cyhoeddi

Dyddiad terfyn ar gyfer amcangyfrifon: 3ydd dydd Llun y mis

Cyhoeddi'r ystadegau misol ar dydd Gwener yn yr un wythnos

Cyhoeddi'r ystadegau chwarterol ar dydd Iau yn yr wythnos canlynol

Beth yw strwythur y datganiad hwn?

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys chwe thabl a fydd yn cael eu cyhoeddi'n chwarterol. Caiff Tablau 1 i 4 hefyd eu cyhoeddi'n fisol ar [wefan StatsCymru](#).

Tabl 1a-c: Nifer y trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd, y dreth sy'n ddyledus ar y trafodiadau hynny a'r gwerth a briodolwyd i'r eiddo sy'n agored i'r dreth, yn ôl dyddiad dod i rym

Tabl 2: Nifer y trafodiadau yn ôl math o drafodiad

Tabl 3a-b: Nifer y trafodiadau preswyl a'r dreth sy'n ddyledus ar yr eiddo hynny, yn ôl band treth preswyl

Tabl 4a-b: Nifer y trafodiadau amhreswyl a'r dreth sy'n ddyledus ar yr eiddo hynny, yn ôl band treth amhreswyl

Tabl 5: Nifer a gwerth unrhyw ryddhad treth a gyhoeddwyd erbyn y dyddiad dod i rym

Tabl 5a: Nifer y trafodiadau a dderbyniodd ryddhad na gafodd effaith ar y dreth oedd yn ddyledus.

Tabl 6: Nifer a gwerth unrhyw ad-daliadau treth a gyhoeddwyd erbyn y dyddiad dod i rym

Tabl 7: Treth Trafodiadau Tir a dalwyd i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

Newidiadau i dablau data yn y rhifyn hwn

- Mae'r datganiad hwn wedi cynnwys data misol yn Nhablau 1 i 4 yn flaenorol. Bydd y data misol hwn ar gael yn awr ar [wefan StatsCymru](#) yn unig, ond mae'n bosibl y cyfeirir ato yn y testun yn y rhifyn hwn.
- Mae data misol ar gyfer Tablau 6 a 7 wedi ei gynnwys am y tro cyntaf ar [wefan StatsCymru](#).
- Rydym wedi gwneud newidiadau eraill i gyflwyniad Tablau 1 a 4, a ddisgrifir yn ddiweddarach yn y datganiad hwn.

Sut fydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol?

Dyma 'r ail o'n datganiadau ystadegol chwarterol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir. Ein cyhoeddiad mawr nesaf fydd datganiad ystadegol blynyddol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar 27 Mehefin 2019. Bydd hyn yn cyflwyno data diwygiedig ar gyfer 2018-19 (ar gyfer darlun mwy sefydlog) a dadansoddiad ehangach, gan gynnwys data blynyddol fesul awdurdod lleol.

Byddwn yn cyhoeddi'r datganiad chwarterol nesaf yn y gyfres hon ar 25 Gorffennaf 2019. Bydd y cyhoeddiad yn diweddarau amcangyfrifon a gafodd eu cynnwys yn y datganiad hwn yn ogystal â darparu amcangyfrifon ar gyfer y pedwerydd chwarter (Ebrill i Fehefin) 2019-20. Cyn hynny, bydd Tablau 1 i 4 yn cael eu diweddarau ar 24 Mai 2019 a 27 Mehefin 2019 ar [wefan StatsCymru](#). Datganiadau data yn unig fydd y rhain.

Symbolau a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn

- r Mae'r gwerth hwn wedi ei ddiwygio yn y cyhoeddiad hwn
- p Mae'r gwerth hwn dros dro a bydd yn cael ei ddiwygio mewn cyhoeddiad yn y dyfodol
- * Nid yw'r gwerth hwn yn ddigon mawr i'w gyflwyno ac mae wedi cael ei atal yn y cyhoeddiad hwn
- ~ Yn cynrychioli gwerth sy'n talgrynnu i 0, ond sydd heb fod yn 0

Tablau data sydd yn y datganiad hwn

Noder ein bod wedi newid cyflwyniad Tablau 1a-c yn y rhifyn hwn o'r datganiad, yn seiliedig ar adborth defnyddwyr. Gweler [blwch Enghraifft 3](#) yn adran ansawdd allweddol y datganiad hwn am ragor o wybodaeth.

Tabl 1a: Nifer y trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd, yn ôl dyddiad dod i rym ¹

Dyddiad dod i rym	Trafodiadau (nifer)			Cyfanswm nifer y trafodiadau ³
	Preswyl	o'r rhain:		
		Cyfraddau uwch (r)	Amhreswyl ²	
2018-19 (p)	55,560	12,990	6,000	61,560
Ebrill-Mehefin 18	13,220	3,080	1,420	14,630
Gorffennaf-Medi 18	14,850	3,330	1,470	16,320
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	15,750	3,520	1,660	17,420
Ionawr-Mawrth 19 (p)	11,740	3,060	1,450	13,190

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf.

² Mae'r categori 'eiddo amhreswyl' yn cynnwys eiddo nad ydynt yn gyfan gwbl breswyl (h.y. rhai sydd ag elfennau preswyl a masnachol).

³ Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

Ddiwedd 15 Ebrill 2019, yr oedd 13,190 o drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd ar gyfer Ionawr i Fawrth, gyda nifer bach o hysbysiadau pellach yn debygol o gael eu derbyn. Mae hyn yn ostyngiad o'r chwarter blaenorol, yn enwedig ar gyfer trafodiadau preswyl. Dros dro, roedd 61,560 o drafodiadau preswyl ar gyfer blwyddyn 2018-19.

Tabl 1b: Treth yn ddyledus ar drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd, yn ôl dyddiad dod i rym ¹

Treth yn ddyledus (£ miliwn)				
Dyddiad dod i rym	Preswyl (r)	o'r rhain:		Cyfanswm y dreth ddyledus ⁴ (r)
		Refeniw ychwanegol o'r gyfradd		
		uwch ² (r)	Amhreswyl ³	
2018-19 (p)	155.5	60.1	72.1	227.6
Ebrill-Mehefin 18	32.7	13.3	15.4	48.1
Gorffennaf-Medi 18	43.4	15.7	17.7	61.0
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	46.4	17.3	19.4	65.8
Ionawr-Mawrth 19 (p)	33.0	13.8	19.6	52.6

¹ Mae'r dreth yn y tabl hwn wedi cael ei thalgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf.

² Nodwch mai dim ond refeniw ychwanegol o drafodiadau cyfradd uwch sydd yn y golofn hon. Nid yw'r golofn hon yn cynnwys elfen prif gyfradd trafodiadau cyfradd uwch.

Noder y gwnaed diwygiad bychan am i lawr i ddata yn y golofn hon yn ein datganiad 'data yn unig' a gyhoeddwyd ar 22 Chwefror 2019. Gweler [blwch Enghraifft 3](#) yn adran ansawdd allweddol y datganiad hwn am ragor o wybodaeth.

³ Mae'r categori 'eiddo amhreswyl' yn cynnwys eiddo nad ydynt yn gyfan gwbl breswyl (h.y. rhai sydd ag elfennau preswyl a masnachol).

⁴ Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

Mae swm y Dreth Trafodiadau Tir sy'n daladwy yn cael ei chyfrifo ar sail y trafodiad hysbysadwy a adroddwyd ac a gyflwynwyd. Erbyn diwedd 15 Ebrill 2019, roedd £52.6 miliwn yn ddyledus ar gyfer trafodiadau'r dreth yn ymwneud â Ionawr i Fawrth 2019. Dros dro, roedd £227.6 miliwn o dreth yn ddyledus ar gyfer trafodiadau gyda dyddiad dod i rym yn 2018-19.

(Ar [wefan StatsCymru](#) yn unig) Ar gyfer mis Mawrth 2019, y dreth sy'n ddyledus ar gyfer trafodiadau dibreswyl oedd yr ail ffigur misol uchaf a welwyd yn ystod 2018-19 (gyda dim ond ffigur Gorffennaf 2018 yn uwch). Mae hyn i'w ddisgwyl i raddau, gan ei bod yn gyffredin i brydlesi dibreswyl gael eu hadnewyddu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

(Ar [wefan StatsCymru](#) yn unig) Ar gyfer trafodiadau preswyl, roedd y dreth a oedd yn ddyledus ar gyfer mis Mawrth 2019 yn uwch nag ym mis Ionawr a mis Chwefror 2019, ond roedd yn is na'r ffigurau a welwyd yn ail hanner 2018.

Tabl 1c: Gwerth a briodolir i eiddo sy'n agored i Dreth Trafodiadau Tir, yn ôl dyddiad dod i rym ¹

Gwerth yr eiddo a drethwyd (£ miliwn)				
Dyddiad dod i rym	Preswyl	o'r rhain:		Cyfanswm gwerth yr eiddo a drethwyd ³
		Cyfraddau uwch (r)	Amhreswyl ²	
2018-19 (p)	9,837	2,051	2,564	12,400
Ebrill-Mehefin 18	2,256	451	521	2,778
Gorffennaf-Medi 18	2,687	536	690	3,377
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	2,845	586	651	3,496
Ionawr-Mawrth 19 (p)	2,048	479	701	2,749

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £1 miliwn agosaf.

² Mae'r categori 'eiddo amhreswyl' yn cynnwys eiddo nad ydynt yn gyfan gwbl breswyl (h.y. rhai sydd ag elfennau preswyl a masnachol).

³ Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

Er mwyn cyfrifo swm y dreth sy'n ddyledus, mae pris prynu'r trafodiad (a elwir hefyd yn gydnabyddiaeth) yn cael ei gasglu fel arfer. Ar gyfer trawsgludo a throsglwyddo perchenogaeth, sydd fel arfer yn ymwneud â phryniannau rhydd-ddaliadol, mae hyn yn seiliedig ar werth yr eiddo. Mae'r gydnabyddiaeth yn digwydd ar ffurf premiwm i bryniannau lesddaliadau preswyl, a gwerth yr eiddo yw hyn fel arfer. Fodd bynnag, yn achos lesioedd amhreswyl, y swm hwn yw'r premiwm i gaffael y les.

Felly, mae tabl 1c yn cynnwys cymysgedd o gysyniadau ac ni ellir cyfeirio ato fel prisiad gwir neu bris prynu'r eiddo. Yn hytrach dylen ni ei ystyried fel y gwerth a briodolir i'r eiddo sy'n agored i'r Dreth Trafodiadau Tir.

Tabl 2: Nifer y trafodiadau, yn ôl math o drafodiad ¹

Dyddiad dod i rym	Trawsgludo / trosglwyddo perchnogaeth ²		Rhoi les newydd	Ailddyrannu les	Cyfanswm
	Cyfanswm Gwerth		Nifer	Nifer	Nifer
	Nifer	(£ miliwn)			
2018-19 (p)	56,340	11,584	2,550	2,680	61,560
Ebrill-Mehefin 18	13,300	2,604	650	690	14,630
Gorffennaf-Medi 18	15,020	3,159	610	700	16,320
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	16,010	3,262	700	710	17,420
Ionawr-Mawrth 19 (p)	12,020	2,558	600	580	13,190

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £1 miliwn agosaf. Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

² Mae trawsgludo / trosglwyddo perchnogaeth yn cynnwys nifer bach o drafodiadau sydd yn y categori 'Arall'.

Trawsgludo neu drosglwyddo perchnogaeth oedd y rhan fwyaf o'r trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd; roedd y ffigur hwn yn 92 y cant ar gyfer 2018-19, gyda mân amrywiadau o chwarter i chwarter. Roedd prisiad yr eiddo cysylltiedig â'r trawsgludo a'r trosglwyddo perchnogaeth hwnnw yn ystod 2018-19 yn £11.6 biliwn.

Tabl 3a: Nifer y trafodiadau amhreswyl, yn ôl band treth a dyddiad dod i rym ¹

Dyddiad dod i rym	Trafodiadau yn ôl band treth breswyl (nifer)						Cyfanswm ²
	Hyd at a gan						
	gynnwys	£180,001 -	£250,001 -	£400,001 -	£750,001 -	Dros	
	£180,000	£250,000	400,000	£750,000	£1.5m	£1.5m	
2018-19 (p)	35,490	10,140	7,660	2,090	160	20	55,560
Ebrill-Mehefin 18	8,730	2,360	1,680	420	20	*	13,220
Gorffennaf-Medi 18	9,220	2,800	2,160	630	40	*	14,850
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	9,850	2,950	2,270	620	60	10	15,750
Ionawr-Mawrth 19 (p)	7,700	2,030	1,550	420	40	*	11,740

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 agosaf. Sylwch fod y tabl hwn yn cynnwys trafodiadau les preswyl.

² Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

*

Yn cynrychioli gwerth sydd heb fod yn ddigon mawr i'w gyflwyno ac sydd wedi cael ei atal.

Dros dro, bu 55,560 o drafodiadau preswyl hysbysadwy a adroddwyd yn 2018-19. Mae bron dau rhan o dri o'r rheini o fewn y band treth cyntaf (gyda phris prynu yn llai na £180,000). Mae hyn yn ychydig dros bedwar rhan o bump o drafodiadau'r Dreth Trafodiadau Tir o'u cyfuno â'r ail fand. Bu amrywiadau bach yn y canrannau hyn o chwarter i chwarter.

Tabl 3b: Y dreth sy'n ddyledus ar drafodiadau preswyl, yn ôl band treth preswyl ¹

Treth yn ddyledus yn ôl bandiau treth amhreswyl (£ miliwn)							
Dyddiad dod i rym	Hyd at a gan						Cyfanswm ²
	gynnwys	£180,001 -	£250,001 -	£400,001 -	£750,001 -	Dros	
	£180,000	£250,000	400,000	£750,000	£1.5m	£1.5m	
2018-19 (p)	28.8	22.7	53.5	41.2	7.9	1.3	155.5
Ebrill-Mehefin 18 (r)	7.3	5.1	11.2	7.9	1.0	*	32.7
Gorffennaf-Medi 18 (r)	7.3	6.2	15.0	12.5	2.3	*	43.4
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	7.6	6.5	16.1	12.6	2.7	0.8	46.4
Ionawr-Mawrth 19 (p)	6.6	4.9	11.2	8.3	1.9	*	33.0

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf. Sylwch fod y tabl hwn yn cynnwys y dreth sy'n ddyledus ar drafodiadau les preswyl.

² Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

* Yn cynrychioli gwerth a ataliwyd gan ei fod yn seiliedig ar nifer fach iawn o drafodiadau (gweler tabl 3a).

Dros dro ar gyfer 2018-19, roedd cyfanswm o £155.5 miliwn yn ddyledus o'r 55,560 o drafodiadau preswyl hysbysadwy'r Dreth Trafodiadau Tir a hysbyswyd. Yn y cyfnod hwn, treth sy'n ddyledus o'r band cyntaf a'r ail fand (gyda phris prynu yn llai na £250,000) yw oddeutu traean o gyfanswm y dreth sy'n ddyledus ar drafodiadau preswyl; ond fel y nodir uchod, mae'n ychydig dros bedwar rhan o bump o nifer y trafodiadau. Unwaith eto, bu amrywiadau bach yn y canrannau hyn o chwarter i chwarter.

Noder ein bod ni wedi newid cyflwyniad Tablau 4a-b yn y rhifyn hwn o'r datganiad, yn seiliedig ar adborth defnyddwyr. Gwnaed hyn i ddangos gwerth rhent trafodiadau dibreswyl (lle bo'n berthnasol). Gwnaed y newidiadau hyn i gynnwys data ychwanegol ochr yn ochr â'n datganiad ystadegol blynyddol (i'w gyhoeddi ar 27 Mehefin 2019). Gweler [blwch Engraifft 3](#) yn adran ansawdd allweddol y datganiad hwn am ragor o wybodaeth.

Tabl 4a: Nifer y trafodiadau amhreswyl, yn ôl gwerth ¹

Dyddiad dod i rym	Trafodiadau (nifer)						
	Gwerth nad yw'n werth rhent				Gwerth rhent		Cyfanswm ^{3 4}
	Hyd at a gan				Premiwm		
	gynnwys	£150,001 -	£250,001 -	Dros	Dim premiwm	wedi ei	
	£150,000	£250,000	£1m	£1m	wedi ei dalu ²	dalu ^{2 3}	
2018-19 (p)	2,660	700	1,140	350	1,150	140	6,000
Ebrill-Mehefin 18	650	170	240	80	280	40	1,420
Gorffennaf-Medi 18	660	160	280	80	300	30	1,470
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	740	190	330	100	300	50	1,660
Ionawr-Mawrth 19 (p)	620	170	290	100	280	20	1,450

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 agosaf. Sylwch fod y tabl hwn yn cynnwys trafodiadau les amhreswyl.

² Disgrifir y term 'premiwm' yn fwy cywir fel 'ystyriaeth heblaw rhent'. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y premiwm a delir ar ffurf gwerth arian parod, ond gallai fod ar ffurf arall.

³ Noder bod prydles sydd newydd gael eu rhoi, sydd â phremiwm a dalwyd a gwerth rhent, yn cael eu cyfrif ddwywaith yn rhan trafodiadau'r tabl. Gan hynny, dim ond y pum colofn gyntaf yn rhan trafodiadau'r tabl sy'n adio i roi'r cyfanswm.

⁴ Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

Dros dro ar gyfer 2018-19, cafwyd 6,000 o drafodiadau amhreswyl hysbysadwy a hysbyswyd. Roedd gan 6 y cant o'r trafodiadau hyn werth heb fod yn rhent o fwy nag £1 miliwn. Ar gyfer ychydig dros un rhan o bump o drafodiadau dibreswyl, roedd gwerth rhent yn gysylltiedig â'r eiddo (a gyfrannodd at y dreth a dalwyd ar y trafodiad).

Tabl 4b: Y dreth sy'n ddyledus ar drafodiadau amhreswyl, yn ôl band treth amhreswyl ¹

Dyddiad dod i rym	Treth yn ddyledus (£ miliwn)					Cyfanswm ²
	Gwerth nad yw'n werth rhent					
	Hyd at a gan					
	gynnwys	£150,001 -	£250,001 -	Dros	Gwerth	
	£150,000	£250,000	£1m	£1m	rhent	
2018-19 (p)	0.1	0.4	12.5	48.8	10.3	72.1
Ebrill-Mehefin 18	~	0.1	2.8	10.0	2.6	15.4
Gorffennaf-Medi 18	~	0.1	3.1	11.5	3.0	17.7
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	~	0.1	3.7	13.6	2.1	19.4
Ionawr-Mawrth 19 (p)	~	0.1	3.0	13.8	2.7	19.6

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf. Sylwch fod y tabl hwn yn cynnwys trafodiadau les amhreswyl.

² Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

~ Yn werth sy'n talgrynnu i 0, ond sydd heb fod yn 0.

Dros dro, cyfrifwyd £72.1 miliwn o dreth ar gyfer yr eiddo amhreswyl hyn ar gyfer 2018-19. Roedd bron i ddwy ran o dair o'r dreth a oedd yn ddyledus o fewn y band prisiau uchaf (ar gyfer gwerth nad yw'n werth rhent). Daeth 14 y cant o'r dreth sy'n ddyledus o werth rhent eiddo dibreswyl.

Rhyddhad

Gellir hawlio rhyddhad ar eiddo preswyl ac amhreswyl. Mae rhyddhad yn gostwng maint y dreth sy'n daladwy pan gwrddir â rhai amodau. Y rhyddhad mwyaf cyffredin a hawlr fel arfer yw: rhyddhad grŵp, rhyddhad i anheddau lluosog; a rhyddhad i elusennau.

[Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am bob un o'r gwahanol enghreifftiau o ryddhad a pha bryd y maent yn berthnasol ar wefan ACC.](#)

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y trafodiadau sydd wedi derbyn rhyddhad. Dylid nodi y gellir rhoi rhyddhad lluosog i drafodiad unigol ac y gall rhyddhad ostwng y dreth sy'n daladwy i sero (a elwir yn rhyddhad llawn) neu gan ganran neu swm penodol (a elwir yn rhyddhad rhannol). Yn ystod Ionawr i Fawrth 2019, derbyniodd oddeutu 460 o drafodiadau ryddhad, a derbyniodd nifer fach ohonynt fwy nag un rhyddhad (gweler tabl 5 a 5a isod).

Tabl 5: Nifer a gwerth unrhyw ryddhad treth a gyhoeddwyd, yn ôl dyddiad dod i rym ^{1 2}

Dyddiad dod i rym	Trafodiadau a ryddhawyd				Gwerth y dreth a ryddhawyd (£ miliwn)			
	Preswyl prif	Preswyl cyfraddau	Amhreswyl ³	Cyfanswm ⁴	Preswyl prif	Preswyl cyfraddau	Amhreswyl ³	Cyfanswm ⁴
	gyfradd	uwch			gyfradd	uwch		
2018-19 (p)	260	240	290	800	4.7	2.5	38.5	45.6
Ebrill-Mehefin 18 (r)	80	40	60	170	1.4	0.6	6.7	8.6
Gorffennaf-Medi 18 (r)	60	70	60	190	0.7	0.7	16.6	18.0
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	80	50	70	200	0.8	0.4	9.7	10.8
Ionawr-Mawrth 19 (p)	60	90	100	250	1.9	0.8	5.5	8.2

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf a'r £0.1 miliwn agosaf o dreth a ryddhawyd.

² Nid yw'r ffigurau a gyflwynir yn cynnwys oddeutu 50 i 100 trafodiad cysylltiol sy'n destun rhyddhad gan ei fod yn anodd rhoi amcangyfrif dibynadwy o effaith y rhyddhadau yn yr achosion hyn. Ein hamcangyfrif gorau o effaith y rhyddhadau sy'n ymwneud â thrafodion cysylltiol yw oddeutu £1 miliwn i £2 miliwn y chwarter, ond nid yw hwn yn ddigon cadarn i gael ei wahanu a chynnwys gyda'r data uchod.

³ Mae'r categori 'eiddo amhreswyl' yn cynnwys eiddo nad ydynt yn gyfan gwbl breswyl (h.y. rhai sydd ag elfennau preswyl a masnachol).

⁴ Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

Yn ystod Ionawr i Fawrth 2019, bu 250 o drafodiadau a dderbyniodd ryddhad gan ostwng y dreth gysylltiedig a oedd yn daladwy, yn fwy na'r nifer yn ystod Hydref i Ragfyr 2018. Mae'r dreth sy'n ddyledus wedi bod braidd yn anwadal dros amser, a hynny oherwydd nifer fach o drafodiadau amhreswyl mawr sy'n destun rhyddhad.

Mae Tabl 5a yn dangos bod 220 o drafodiadau eraill gyda dyddiad dod i rym yn Ionawr i Fawrth 2019 wedi derbyn rhyw fath o ryddhad. Fodd bynnag, ni chawsant unrhyw effaith ar y dreth oedd yn

daladwy ac o ganlyniad maent wedi cael eu diystyru o'r nifer uchod. Mae llawer ohonynt wedi'u hadrodd yn ddiangen wrth lenwi'r ffurflen dreth ar-lein. Gan fod y rhan fwyaf o'r rhain yn deillio o drafodiadau preswyl gwerth isel, mae'n ymddangos eu bod o ganlyniad i'r gred anghywir bod angen gwneud cais am ryddhad i brynwyr tro cyntaf (oedd yn berthnasol i'r dreth flaenorol ond sydd ddim yn berthnasol i'r Dreth Trafodiadau Tir).

Yn Nhabl 5a, mae'r ffigyrau ar gyfer chwarterau blaenorol wedi cael eu diwygio am i lawr ers y datganiad ystadegol diwethaf. Y rheswm am hyn yw bod ymholiadau wedi cael eu cyflwyno i nifer o asiantwyr ynglŷn â pham mae rhyddhadau treth wedi cael eu hawlio pan nad oes unrhyw effaith ar werth y dreth, ac mewn llawer o achosion canfuwyd bod y rhyddhadau hyn wedi cael eu hawlio'n ddiangen. Newidiwyd y trafodiadau hyn i dynnu'r rhyddhadau diangen, a gan fod y broses hon yn parhau, disgwylir rhagor o ddiwygiadau am i lawr yn Nhabl 5a.

Tabl 5a: Nifer y trafodiadau a dderbyniodd ryddhad ond na chafodd effaith ar y dreth oedd yn ddyledus ^{1 2}

Dyddiad dod i rym	Trafodiadau (nifer)			
	Preswyl	Preswyl	Amhreswyl ³	Cyfanswm ⁴
	prif	cyfraddau		
	gyfradd	uwch		
2018-19 (p)	540	60	130	730
Ebrill-Mehefin 18 (r)	120	~	30	150
Gorffennaf-Medi 18 (r)	120	10	20	140
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	180	10	30	220
Ionawr-Mawrth 19 (p)	130	50	50	220

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf.

² Nid yw'r ffigurau a gyflwynir yn cynnwys oddeutu 50 i 100 trafodiad cysylltiol sy'n destun rhyddhad gan ei fod yn anodd rhoi amcangyfrif dibynadwy o effaith y rhyddhadau yn yr achosion hyn. Ein hamcangyfrif gorau o effaith y rhyddhadau sy'n ymwneud â thrafodion cysylltiol yw oddeutu £1 miliwn i £2 miliwn y chwarter, ond nid yw hwn yn ddigon cadarn i gael ei wahanu a chynnwys gyda'r data uchod.

³ Mae'r categori 'eiddo amhreswyl' yn cynnwys eiddo nad ydynt yn gyfan gwbl breswyl (h.y. rhai sydd ag elfennau preswyl a masnachol).

⁴ Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

Ad-daliadau

Cyhoeddwyd yr ad-daliad cyntaf am Dreth Trafodiadau Tir cyfradd uwch ym mis Mai 2018. Os yw'r prynwr, cyn pen tair blynedd ar ôl trafodiad ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfraddau uwch, yn gwerthu ei brif breswylfa flaenorol, gallai fod yn gymwys i gael ad-daliad o'r gyfradd uwch ychwanegol o'r Dreth Trafodiadau Tir. Ar ddiwedd 15 Ebrill 2019, hawliwyd 720 o ad-daliadau gyda dyddiad dod i rym yn 2018-19, gyda £5.5 miliwn wedi ei ad-dalu.

Pan gaiff ad-daliad am Dreth Trafodiadau Tir preswyl cyfradd uwch ei hawlio caiff y trafodiad gwreiddiol ei ddiwygio i drafodiad Treth Trafodiadau Tir preswyl prif gyfradd. Mae'r data yn y

datganiad hwn wedi ei addasu ar gyfer unrhyw ad-daliadau a gymeradwywyd gan ACC hyd at ac yn cynnwys 15 Ebrill 2019.

Tabl 6: Nifer a gwerth ad-daliadau preswyl cyfradd uwch a gyhoeddwyd, yn ôl dyddiad dod i rym ¹

Dyddiad dod i rym	Nifer yr ad-daliadau	Ad-daliadau
		(£ miliwn)
2018-19 (p)	720	5.5
Ebrill-Mehefin 18 (r)	270	2.0
Gorffennaf-Medi 18 (r)	260	2.0
Hydref-Rhagfyr 18 (r)	160	1.3
Ionawr-Mawrth 19 (p)	30	0.2

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf a'r £0.1 miliwn agosaf o dreth a ad-daliadau.

Mae tabl 6 yn dangos nifer a gwerth yr ad-daliadau a gyhoeddwyd erbyn y dyddiad y mae'r trafodiad yn dod i rym.

Mae mwy o wybodaeth am yr ad-daliadau a wnaed i drethdalwyr ar gael ar [wefan StatsCymru](http://wefan.StatsCymru), yn ôl y mis y cawsant eu gwneud. Darperir y rhan, yn bennaf, i gefnogi gofynion rhagweld ac maent wedi eu gadael allan o'r datganiad hwn i osgoi dryswch rhwng y ddau werth.

Treth a dalwyd

Tabl 7: Treth Trafodiadau Tir a dalwyd i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ¹

	Gwerth taliadau Treth
	Trafodiadau Tir (£ miliwn)
2018-19	220.2
Ebrill-Mehefin 18	39.0
Gorffennaf-Medi 18	62.8
Hydref-Rhagfyr 18	65.9
Ionawr-Mawrth 19	52.6

¹ Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf.

Dros pedwerydd chwarter 2018-19 (Ionawr i Fawrth 2019), derbyniodd ACC £52.6 miliwn o daliadau Treth Trafodiadau Tir, yn llai na'r chwarter blaenorol. Yn 2018-19, derbyniodd ACC £220.2 miliwn o daliadau Treth Trafodiadau Tir.

Mae'r gwerthoedd hynny yn wahanol i'r gwerth a ddangosir yn Nhabl 1b, gan nad yw'n cynnwys ond y trafodiadau hynny lle y mae taliadau wedi eu derbyn erbyn diwedd 31 Mawrth 2019; y cyfeirir ato fel arfer fel 'ar sail arian parod'. Bydd y data hwn yn wahanol i'r rhyn a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn yng nghyfrifon blyneddol yr Awdurdod Cyllid, a fydd hefyd yn cynnwys derbynebaw sy'n gysylltiedig â 2018-19 o drafodiadau a dderbynnir yn ystod mis Ebrill 2019. Fel arfer cyfeirir at hyn fel 'ar sail croniadau'.

Adran ansawdd allweddol

Gwerth

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu sefydlu er mwyn diwallu gofyniad y defnyddiwr ar gyfer data ar weithredu'r Dreth Trafodiadau Tir, ar ôl sefydlu ACC. [Mae rhagor o wybodaeth am y Dreth Trafodiadau Tir ar gael yma.](#)

Mae ystadegau am y trethi cyfatebol yn Lloegr a'r Alban yn cael eu cyhoeddi gan Gyllid a Thollau EM a Cyllid yr Alban.

- [Mae modd gweld Ystadegau Treth Dir y Dreth Stamp \(gan gynnwys ystadegau blaenorol yng Nghymru\) yma.](#)
- [Mae modd gweld Ystadegau Trafodiadau Eiddo Msiol ar gyfer y Deyrnas Unedig yma.](#)
- [Mae modd gweld ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau Misol ar gyfer yr Alban yma.](#)

[Ym mis Ionawr 2019, fe wnaeth Revenue Scotland gyhoeddi eu hystadegau blynyddol cyntaf ar gyfer Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau, a gellir eu gweld yn y fan yma.](#) Mae'r wybodaeth hon am yr Alban yn cynnwys dadansoddiadau fesul awdurdodau lleol. Byddwn ninnau hefyd yn cynnwys rhai dadansoddiadau yn ôl Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn ein datganiad Treth Trafodiadau Tir ar gyfer 2018-19, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ar 27 Mehefin 2019.

Mae data sy'n cael ei gyflwyno yn y datganiad hwn yn seiliedig ar y dyddiad pryd daw'r trafodiad i rym. Y dyddiad dod i rym yw pryd mae'r dreth yn dod yn gymwys i'r thalu, fel arfer ar adeg cwblhau trafodiad ar eiddo. Er bod defnyddio'r dyddiad dod i rym wrth ddadansoddi yn gallu arwain at fwy o anwadalwch yn y data (er enghraifft, oherwydd newid yn y cyfraddau trethiant), a diwygiadau mewn datganiadau ac adroddiadau data wedi hynny, mae'r dyddiad hwn yn ymwneud ag adeg pryd digwyddodd y trafodiad ac nid yw'n rhyw ddyddiad yn y dyfodol pryd daeth y ffurflen dreth i law. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd y gyfres a grëwyd o'n dadansoddiad ni yn adlewyrchu newidiadau yn y cyfraddau treth a pholisi ar yr adeg pryd mae unrhyw newidiadau'n digwydd.

Rydyn ni'n ymwybodol fod rhai cyhoeddiadau yn y DU yn seilio eu dadansoddiadau ar ddyddiad cyflwyno'r ffurflen dreth. Fe fyddwn ni felly yn cyhoeddi rhai ffigyrau y mae modd eu cymharu â gwledydd eraill y DU (gan ddefnyddio'r dyddiad cyflwyno) yn ein datganiad Treth Trafodiadau Tir blynyddol am 2018-19.

Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Fel cynhyrchydd newydd o ystadegau swyddogol, rydym yn datblygu ein prosesau cyhoeddi ystadegol, a [chyhoeddwyd ein polisi interim ar allbynnau ystadegol yma](#), yn cynnwys:

- y safonau proffesiynol a ddilynwyd wrth greu'r ystadegau hyn;
- sut mae Swyddog Arweiniol Ystadegau ACC yn rheoli cynnwys ac amseru'r allbynnau'n annibynnol;
- sut rydyn ni'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr am allbynnau sydd ar y gweill;
- sut caiff data ei gasglu, ei storio a'i reoli; a
- bydd staff sy'n ymwneud â chynhyrchu ystadegau'n mynd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus yn unol â fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil a fframwaith cymwyseddau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Asesu ansawdd y data hwn

Rydyn ni'n dal wrthi'n asesu ansawdd y data wrth i ragor o drafodiadau gael eu prosesu.

Rydyn ni wedi asesu'r budd a'r pryderon posibl o ran ansawdd yn unol â chanllawiau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar ddefnyddio data gweinyddol. Ar ôl gweithio gyda'r data ymhellach, rydyn ni wedi gwerthuso lefel y risg o bryderon ynghylch ansawdd. Y tabl diweddaredig isod yw ein hasesiad cyfredol.

Ffynhonnell data	Proffil budd y cyhoedd	Lefel y risg o bryderon ynghylch ansawdd	Lefel yr wybodaeth sicrwydd a ddatblygir
Data cofrestru'r Dreth Trafodiadau Tir	Isel	Isel	A1 – sicrwydd sylfaenol
Ffurflenni treth y Dreth Trafodiadau Tir	Canolig	Isel	A2 – sicrwydd uwch

Wrth baratoi'r datganiad hwn, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda staff gweithredol ACC i ganfod materion pellach yn ystod casglu data a phrosesu ffurflenni unigol. Rydym yn parhau i ddefnyddio systemau rheoli data sy'n dadansoddi ffurflenni treth yn syth ac sy'n tynnu sylw at feysydd a allai beri pryder. Pan mae ffurflen dreth yn cael ei newid gan dîm gweithredol ACC, cysylltir â'r sefydliad sy'n llenwi'r ffurflen i gadarnhau'r newid.

Rydyn ni hefyd yn gweithio'n barhaus gyda chyd-weithwyr mewnol i ganfod opsiynau ar gyfer lliniaru'r materion hyn ar adeg casglu ffurflenni yn y dyfodol, a bydd hynny'n arwain yn anuniongyrchol at ansawdd gwell i ddata.

Mae'n werth nodi hefyd bod y rhan fwyaf o'r data am y Dreth Trafodiadau Tir yn cael ei ddarparu gan sefydliadau sy'n gweithio ar ran y trethdalwyr, gyda rhai ohonynt yn cyflwyno trafodiadau yn rheolaidd (mae tua 10 y cant o'r sefydliadau yn darparu pedair ran o bump o'r ffurflenni treth). Mae hyn wedi arwain at welliannau yn ansawdd y data wrth i ACC ddatblygu perthynas â nifer o sefydliadau allweddol.

Ddiwedd 15 Ebrill 2019, roedd 2,365 o sefydliadau wedi cofrestru yn llwyddiannus ar gyfer cyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir ar-lein, gyda chyfanswm o 6,440 o ddefnyddwyr ar-lein wedi'u cofrestru. Rhoddir enghreifftiau isod o faterion ansawdd rydyn ni wedi'u canfod yn flaenorol, a'n hymateb hyd yma.

Enghraifft 1

Wrth sicrhau ansawdd y datganiad hwn fe wnaethom astudio trafodiadau amhreswyl oherwydd ansefydlogrwydd y data, yn enwedig wrth ystyried yr is-setiau bach sydd yn y datganiad.

Gwnaethom adolygu'r rhesymau dros yr ansefydlogrwydd sydd fel arfer yn gysylltiedig â nifer fach o drafodiadau gwerth uchel a all ddigwydd unrhyw adeg ond sydd ddim yn digwydd bob mis. Gan fod trafodiadau amhreswyl o werth gymharol isel fel arfer, mae'r trafodiadau gwerth uchel yn cael effaith sylweddol ar sefydlogrwydd. Rydym wedi dod i'r casgliad canlynol. Tra nad oes unrhyw bryder uniongyrchol gyda'r data o ganlyniad i'r ymarfer hwn, bydd yn werthfawr cyflwyno dadgyfuniad pellach o'r data newydd. Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r rhain fel rhan o'n datganiad blynyddol a thablau StatsCymru yn y dyfodol.

Enghraifft 2

Drwy asesu'r dreth sy'n ddyledus o gymharu â'r data a gyflwynwyd am bob trafodiad, rydyn ni wedi gallu canfod rhai gwallau yn y data. Mae hyn wedi arwain at rai cywiriadau i'r trafodiadau, ar y cyd â'r asiantiaid sydd wedi'u cyflwyno.

Un enghraifft yw adeg pryd rydyn ni wedi gwirio a oedd yr opsiwn gorau ar gyfer y math o drafodiad wedi cael ei ddewis wrth ffeilio.

Gall trafodiad fod yn breswyl neu'n amrheswyl (sy'n cynnwys achosion lle nad yw eiddo yn gyfan gwbl yn un preswyl). Hefyd, gall cyfradd uwch fod yn berthnasol i eiddo preswyl gan ddibynnu ar rai ffactorau. [Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.](#)

Drwy ddadansoddi'r dreth sy'n ddyledus, a data atodol, rydyn ni wedi gallu canfod achosion pryd mae'r math anghywir o drafodiad wedi cael ei ddewis ac wedi'i gywiro'n ddiweddarach. Cyflwynir y data yn ôl math o drafodiad yn Nhabl 2.

Pam rydyn ni wedi gwneud hyn?

Os yw'r prynwr, cyn pen tair blynedd ar ôl trafodiad ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfraddau uwch, yn gwerthu ei brif breswylfa flaenorol, gallai fod yn gymwys i gael ad-daliad o'r gyfradd uwch ychwanegol o'r Dreth Trafodiadau Tir. Felly, mae'n bwysig gallu amcangyfrif y ffigur hwn mor gywir ag y bo modd.

Enghraifft 3

Rydym wedi gwneud sawl newid i'n tablau data yn y datganiad hwn, yn seiliedig ar adborth defnyddwyr ac i gywiro materion ansawdd a gwella gwerth y data a gyflwynwyd yn flaenorol.

- Ar 22 Chwefror 2019, fe wnaethom adolygiad bychan am i lawr i dreth sy'n ddyledus drwy 'refeniw ychwanegol o gyfraddau uwch' yn **Nhabl 1**. Gwnaethpwyd yr adolygiad hwn yn ein datganiad data yn unig ar gyfer ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tirlenwi ym mis Ionawr 2019, a gyhoeddwyd ar [wefan StatsCymru](#). Yn flaenorol, roeddem wedi tybio bod y refeniw ychwanegol o gyfraddau uwch yn 3 y cant o'r ystyriaeth (ar gyfer pob trafodiad cyfradd uwch). Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bob amser - er enghraifft, os oes gostyngiadau yn y trafodiad sy'n lleihau neu'n clirio'r rhwymedigaeth treth. Mae ein hadolygiad bach am i lawr o'r ystadegau yn ystyried hyn ar gyfer yr achosion hyn.
- Mae gan drafodion prydles dibreswyl naill ai (neu'r naill a'r llall):
 1. gwerth di-rent (neu bremiwm); a
 2. gwerth rhent (sy'n ymwneud â hyd a thelerau'r brydles).

Mae'r ddwy elfen hon yn cyfrannu'n wahanol at y dreth sy'n ddyledus ar drafodiad prydles. Yn flaenorol, roedd **Tabl 4** (trafodion dibreswyl yn ôl gwerth) yn dosbarthu trafodion yn ôl y gwerth nad yw'n werth rhentu yn unig.

Cawsom adborth gan ddefnyddwyr y dylai Tabl 4 gynnwys gwerth rhent trafodion dibreswyl (lle bo'n berthnasol) wrth ddosbarthu'r trafodion. Gan hynny, rydym wedi datblygu ein dulliau i'n galluogi i ychwanegu'r dadansoddiad hwn. Mae hyn wedi cynnwys hollti'r dreth sy'n ddyledus ar drafodion dibreswyl i ddwy elfen pro rata'r gwerthoedd rhent a heb fod yn rhent, a chyflwyno'r rhain mewn colofnau ar wahân. Mae hyn yn cyflwyno rhywfaint o gyfrif dwbl yn y colofnau a ddangosir yn y tabl, a dylid cymryd gofal wrth adio'r colofnau (fel yr eglurir yn nhroednodiadau'r tabl).

Adborth ac ymholiadau

Rydyn ni'n croesawu adborth a sylwadau i ddatblygu'r datganiadau hyn a datganiadau yn y dyfodol. Defnyddiwch y manylion isod i gysylltu â ni.

Cyfryngau: E-bost: newyddion@acc.llyw.cymru
Ymholiadau: E-bost: data@acc.llyw.cymru
Ffôn: 03000 254 729

Diweddariad nesaf

Bydd ein datganiad ystadegol blynyddol ar gyfer 2018-19 yn cael ei gyhoeddi ar 27 Mehefin 2019.

Cyhoeddir ein datganiad ystadegol chwarterol nesaf (i gyflwyno ystadegau ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin 2019) ar 25 Gorffennaf 2019.

Gweler yr adran 'Sut bydd y data'n cael ei gyhoeddi yn y dyfodol?' i gael rhagor o wybodaeth.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.

